# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 21.11.07

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Gareth Roberts (Cadeirydd); Tomos Evans a Dewi Llewelyn

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W.Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Timothy Hughes (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd - Amgylchedd) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu; P.C.Gavin Hughes, Swyddog Cymunedol yng Nghriccieth.

**Trwyddedai Gwesty'r Prince of Wales, Criccieth**: Mr Eryl Roberts

## 1. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED GWESTY'R PRINCE OF WALES, CRICCIETH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais Tim Hughes, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) Cyngor Gwynedd, i adolygu trwydded bresennol gwesty'r Prince of Wales, Criccieth, gan nodi mai dyma'r cais cyntaf o'i fath. Fe wneir y cais o ganlyniad i nifer o gwynion gan drigolion cyfagos ac yn dilyn ymholiadau pellach mae'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd o'r farn nad yw rheolwr y gwesty yn gymwys i reoli ymddygiad y cwsmeriaid ac o ganlyniad nad yw'r safle yn cadw at amcanion y Ddeddf Drwyddedu o rwystro niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed.

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu i dderbyn ymateb gan yr Heddlu yn llwyr gefnogi'r cais ac yn argymell amodau, a llythyrau gan bump o drigolion lleol yn cefnogi'r cais i wyro'r drwydded oherwydd y niwsans cyhoeddus a cherddoriaeth uchel

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd i ymhelaethu ar ei gais;

ii. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor y cyfle i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr

iii. Cafodd yr Heddlu gyfle i gefnogi eu sylwadau ysgrifenedig a rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau;

iv. Rhoddwyd gwahoddiad i bob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

v. Rhoddwyd cyfle i ddeilydd y drwydded ymateb i'r sylwadau

vi. Cafodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a deilydd y drwydded gyfle i grynhoi ei achos

Atgoffwyd pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
2. Diogelwch y Cyhoedd
3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus

4. Amddiffyn plant rhag niwed

Adroddodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd fod y sefyllfa ynglŷn ag ysbwriel o gwmpas drws y gwesty wedi gwella'n arw yn ddiweddar. Ar y llaw arall, er i lefel y swn o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn y gwesty gael ei ostwng am gyfnod wedi trafodaeth â swyddogion y Cyngor ym mis Chwefror eleni, yn fuan iawn roedd y lefel wedi codi mor uchel ag erioed ac wedi gwaethygu'n sylweddol dros fisoedd yr haf. Pryder arall i'r swyddogion oedd bod nifer o gwsmeriaid y gwesty yn ymgynnull tu allan i'r drws i ysmygu gan orfodi i gerddwyr fynd allan i'r ffordd fawr er mwyn mynd heibio. Mae plant mewn tai cyfagos yn methu â chysgu oherwydd lefel uchel swn yn y gwesty hyd at oriau mân y bore ac o ganlyniad i'r pryderon hyn, yn ogystal a nifer o bwyntiau eraill, daeth y penderfyniad i wneud y cais i adolygu trwydded y Prince of Wales.

Dosbarthwyd copi o lythyr i'r aelodau a dderbyniwyd gan gyfreithiwr deilydd y drwydded yn nodi nad cyfrifoldeb y trwyddedai yw rheoli yfwyr tu allan i'r gwesty, yn enwedig o gofio bod dwy siop gyfagos yn gwerthu diod, ac hefyd i nodi nad oes bwriad i gynnal discos yn y gwesty o hyn allan gan nad yw'r arferiad yn hyfyw.

Cefnogwyd sylwadau a wnaethpwyd mewn llythyr gan Gydlynydd Trwyddedu yr Heddlu gan nodi i'r trwyddedai gytuno mewn cyfarfod yn mis Gorffennaf eleni ar nifer o argymhellion i wella'r sefyllfa, ond nad yw wedi glynu at yr amodau answyddogol hyn er gwaethaf sawl cyfarfod â swyddogion yr heddlu yn dilyn cwynion rheolaidd gan drigolion lleol. Dymuniad yr heddlu yw gosod yr argymhellion hyn fel amodau ffurfiol ar y drwydded, yn ogystal â chwtogi oriau gweithredu y safle.

Ategwyd y sylwadau hyn gan y cwnstabl lleol gan adrodd ar nifer o achlysuron pan alwyd ar yr heddlu i'r safle gan aelodau o'r cyhoedd o ganlyniad i achosion o niwsans cyhoeddus. Ychwanegodd nad yw'r heddlu yn ystyried bod y person sydd yn rheoli'r gwesty yn absenoldeb y trwyddedai yn gallu dylanwadu'n ddigonol ar y cwsmeriaid i gadw amodau'r drwydded.

Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai oedd yn bresennol gyflwyno sylwadau i gefnogi'r rhesymau a nodwyd ganddynt mewn llythyr, a chafwyd tystiolaeth gan y canlynol:
Mr Owen, Dawn View, 8 Wellington Terrace, Criccieth
Mrs P.A.Owen, Newsday, Stryd Fawr, Criccieth
gan fynegi pryder ar sail y canlynol:

- Swn annerbyniol cwsmeriaid yn gadael y safle hyd at oriau mân y bore
- Lefel uchel cerddoriaeth yn cadw pobl rhag cysgu
- Sbwriel ac ymddygiad anghymdeithasol tu allan i'r safle

Wrth ymateb i'r sylwadau, adroddodd y trwyddedai:

- nad oes ganddo reolaeth dros gwsmeriaid siopau a thafarnau eraill sy'n ymgynnull tu allan i'r Prince of Wales
- nad yw'n bwriadu cynnal discos yn y gwesty o hyn allan
- ei fod wedi symud mainc oedd gyfagos rhag denu pobl i loetran
- bod yr heddlu yn aml yn parcio gyferbyn â'r gwesty ond heb ymyrryd â chwsmeriaid sydd yn yfed ar y palmant

Wrth grynhoi, mynegodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd fod gwesty'r Prince of Wales yn unigryw gan nad oes lle priodol ar dir y gwesty i ganiatau i gwsmeriaid i ysmygu tu allan. Nid yw'r Adran Bwrdeistrefol yn glanhau ar fore Sul yn ystod y gaeaf, ac felly mae'r cyfrifoldeb ar y trwyddedai i wneud y gwaith. Argymhellir gosod dyfais rheoli swn yn y gwesty er mwyn gwella'r sefyllfa parthed cerddoriaeth uchel.

Trafodwyd y cais yng ngolau'r holl sylwadau  a gyflwynwyd gan dalu sylw i egwyddorion y Ddeddf Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD wedi ystyried yn ofalus y cais i wyro Trwydded Eiddo gwesty'r Prince of Wales, Criccieth o safbwynt y pedair egwyddor Deddf Trwyddedu 2003 sef:**

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

   a) **amrywio'r drwydded bresennol (dan baragraffau e,f,g,h,i a j) i ganiatau cerddoriaeth byw neu wedi ei recordio; perfformiadau dawns; unrhyw beth sy'n debyg i'r uchod; gwneud cerddoriaeth; dawnsio -  i gyd yn ystod yr oriau 10.00 – 00.00awr;**
   b) **ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â diodydd alcoholig na diodydd ysgafn wedi eu hagor allan o'r adeilad**
   c) **gosod dyfais rheoli swn yn yr adeilad trwy gytundeb â swyddogion Iechyd yr Amgylchedd**
   d) **cyflogi goruchwylwyr trwyddedig gyda'r ADD i fod ar ddyletswydd pan mae adloniant yn cael ei gynnal yn yr eiddo**

Atgoffwyd y trwyddedai o'r amod bod cwsmeriaid i gyd i fod wedi gadael yr eiddo erbyn 01.00. Hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor, ac hefyd o'r hawl i wneud cais am adolygu'r drwydded ymhellach pe byddai tystiolaeth o fethu glynu at yr amodau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.40am.